**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

17 Mai 2023

Annwyl Jane

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: adroddiad monitro

Yn ein cyfarfod ar 24 Ebrill, trafodwyd yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Preswylion Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) gan y rhai sy'n byw yng Nghymru ac, wedi hynny, cyhoeddwyd ein hadroddiad monitro diweddaraf. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y cyfnod y bydd yn rhoi cyngor a chymorth am ddim y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2023 ac wedi rhoi £200,000 ychwanegol i sefydliadau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth a Settled ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fel y gallant barhau i gynorthwyo dinasyddion yr UE yng Nghymru.

Er ein bod yn falch y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu dinasyddion Ewrop, rydym wedi clywed pryderon am y modd mae sefydliadau cynghori yn cyrraedd y rhai o gymunedau Roma. Mae llawer ohonynt yn methu siarad Saesneg, mae ganddynt lefelau llythrennedd isel ac anghenion cymhleth sy'n galw am gymorth ychwanegol a pharhaus, a hynny wyneb yn wyneb ac yn eu hiaith gyntaf. Am yr holl resymau hyn, mae Travelling Ahead wedi'n rhybuddio am y posibilrwydd nad yw llawer o'r gymuned Roma Ewropeaidd wedi gwneud cais am yr Hawl i Aros yn y DU, ac mae hynny'n eu gadael yn agored i bobl gamfanteisio arnynt ac iddynt orfod talu am wasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

Nid yw Travelling Ahead yn cael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, ac mae'r arian a gaiff gan Lywodraeth y DU yn lleihau. Er gwybodaeth, rwyf wedi ysgrifennu at Gyngor ar Bopeth i holi sut y maent yn bwriadu cyrraedd cymuned Roma yr UE ac i ba raddau y gallant gyfathrebu â nhw yn eu hiaith eu hunain.

- A allech chi ddweud a oes camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y gymuned Roma yn cael cyngor a chymorth ac, os oes, beth yw'r camau hynny?

- Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ymwneud ag ethnigrwydd y rhai sydd wedi cael cymorth a chyngor, a sut mae hyn yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn cyrraedd y gymuned Roma.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol